

Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yng Nghymru (seiliedig ar 2019)

1. Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau hyn yn amcangyfrifon o dai ychwanegol ar lefel Genedlaethol a Rhanbarthol. Caiff yr amcangyfrifon o dai ychwanegol eu cyfrifo gan ddefnyddio amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2018, yn ogystal ag amcangyfrifon o nifer o elfennau o angen presennol nas diwallwyd. Dyma ddiweddariad i'r amcangyfrifon o'r anghenion o ran tai yn seiliedig ar 2018 (seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd 2014) a gyhoeddwyd mewn dau gam yn 2019. Roedd y [datganiad ystadegol cyntaf](#) yn cyflwyno amcangyfrifon ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ac fe gafodd ei gyhoeddi fis Ionawr 2019, gyda'r ail gyhoeddiad o [amcangyfrifon seiliedig ar 2018 ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn ôl deiliadaeth](#) ym mis Mehefin 2019. Mae'r holl ganlyniadau ar gael ar [StatsCymru](#).

Ni ddylai'r ystadegau hyn gael eu defnyddio fel ffordd o bennu targed tai yng Nghymru.

2. Cyd-destun polisi a gweithredol

2.1 Diben yr amcangyfrifon

Prif ddiben yr amcangyfrifon hyn yw:

- Llywio penderfyniadau polisi tai parhaus
- Llywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Cefnogi asesiadau o lesiant lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf)

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â Chymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Senedd. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu cyflwyno gerbron ym mis Mawrth 2016.

Gellir cael gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

2.3 Defnyddwyr a defnyddiau

Caiff amcangyfrifon o'r anghenion o ran tai yng Nghymru eu defnyddio mewn sawl maes gan gynnwys:

- Rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol yng Nghymru
- Darparu darlun o'r angen cyffredinol am unedau tai ychwanegol yng Nghymru sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau tai eraill.
- Llywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol, yn ogystal â llywio adroddiadau ar Dueddiadau yn y Dyfodol (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Helpu i ateb Cwestiynau'r Senedd, gohebiaeth weinidogol, achosion Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Yn ogystal â Llywodraeth Cymru a sefydliadau tai, mae defnyddwyr eraill yn cynnwys awdurdodau lleol (adrannau cynllunio a pholisi), ymchwilwyr, academyddion a myfyrwyr.

3. Data

3.1 Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

- Caiff y wybodaeth ei phrosesu a'i chyhoeddi mewn ffordd drefnus er mwyn galluogi defnyddwyr i weld yr ystadegau pan maent yn gyfredol a mwyaf perthnasol
- Mae'r allbynnau yn canolbwyntio ar Gymru ac maent wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion Llywodraeth Cymru a defnyddwyr allanol eraill
- Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar fethodoleg dryloyw sydd wedi'i hen sefydlu (wedi'i chytuno gan arbenigwyr â sgiliau eang yn y maes tai sy'n ffurfio grŵp technegol) ac yn defnyddio'r data swyddogol ddiweddaraf sydd ar gael.
- Darperir amcangyfrifon drwy wefan [StatsCymru](#) ar lefel genedlaethol a rhanbarthol

Cyfyngiadau

- Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2018. Rhydd amcanestyniadau aelwydydd amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd a geir yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth ac amrywiaeth o dybiaethau ynghylch cyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol cymharol ddiweddar ac maent yn dynodi beth allai ddigwydd petai'r tueddiadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Bydd amcangyfrifon sydd ymhellach i'r dyfodol yn llai sicr. Nid yw'r amcanestyniadau yn ceisio adlewyrchu effaith polisïau na digwyddiadau fel Brexit neu'r coronafeirws (COVID-19).

- Nid yw'r amcangyfrifon cyffredinol yn darged tai. Maent yn dynodi'r angen cyffredinol am dai ychwanegol yng Nghymru, o ystyried y newid a ragamcener yn nifer yr aelwydydd.
- Mae'r fethodoleg ond yn ystyried aelwydydd sydd angen tai ychwanegol. Felly, nid yw'n ystyried yr aelwydydd hynny sy'n byw mewn llety anaddas ac sydd angen math gwahanol o dai.
- Amcangyfrifir yr angen presennol nas diwallwyd ar sail y data gorau sydd ar gael. Mae hyn yn debygol o dangyfrif y nifer wirioneddol o aelwydydd sydd ag angen presennol nas diwallwyd.

3.2 Cylch prosesu data

3.2.1 Data mewnbwn

Mae dwy agwedd ar amcangyfrifon o'r angen am dai: angen newydd ac angen presennol nas diwallwyd.

Mae'r angen newydd yn yr amcangyfrifon o'r angen am dai yn 2019 yn seiliedig ar [amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2018](#), a gyhoeddwyd yn 2020. Pan fo'r amcanestyniadau yn dangos gostyngiad yn nifer yr aelwydydd o un flwyddyn i'r llall (felly â ffigur negyddol o'r angen newydd) mae hyn wedi'i gapio ar sero drwy gydol y dadansoddiad. Yn y sefyllfa hon, nid oes angen newydd.

Mae angen presennol nas diwallwyd yn cynnwys [aelwydydd digartref mewn llety dros dro](#) (ym mis Mehefin 2019) yn ogystal ag [aelwydydd gorlawn a chudd](#) (a ddaw o Gyfrifiad 2011 ac a luniwyd gan SYG mewn tabl wedi'i gomisiynu).

3.2.2 Cyhoeddi

Unwaith y cafodd yr amcangyfrifon eu cyfrifo, lluniwyd y datganiad a chafodd y pwyntiau allweddol a'r sylwebaeth eu drafftio.

4. Sicrhau ansawdd

4.1 Adolygiadau gan Arbenigwyr a Chymheiriaid

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon a'r allbwn o'r gwaith hwn yn gadarn, yn dryloyw ac o'r radd flaenaf, cafodd grŵp Technegol yr Angen a'r Galw am Dai ei sefydlu o'r cychwyn cyntaf, sy'n cynnwys arbenigwyr dadansoddol a pholisi o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Rôl y grŵp hwn oedd cynghori ar fethodoleg a materion technegol.

Hefyd, cafodd y dull a fabwysiadwyd o gyfrifo amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai ei adolygu gan gymheiriaid, a hynny gan y Prif Ddadansoddwyr ac uwch swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r holl ddata mewnbwn wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae'r holl ddata allbwn wedi cael eu gwirio yn erbyn ffigurau a gyfrifwyd â llaw.

Cafodd y datganiad ei archwilio'n annibynnol a chafodd gwiriad synnwyr terfynol ei gynnal gan yr ystadegydd perthnasol cyn ei gyhoeddi ar y wefan.

4.2 Statws ystadegau swyddogol

Mae'r ystadegau a gaiff eu paratoi yn glynu wrth safonau proffesiynol cydnabyddedig. Cânt eu paratoi yn unol â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) a hynny'n annibynnol, gyda Phrif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y gwaith.

Caiff Ystadegau Swyddogol eu llunio i safonau proffesiynol uchel a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Maent yn destun adolygiadau sicrhau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Cânt eu llunio heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

4.3 Cadw at Fesuriadau Ansawdd

Bydd yr adroddiad technegol ar gyfer [amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd yn seiliedig ar 2018](#) yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020. Ym mis Mai 2020, tynnodd y Prif Ystadegydd yr amcanestyniadau aelwydydd mewn awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019) mewn ymateb i gyhoeddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod camgymeriad yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018, y ffynhonnell ddata allweddol ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol. Cafodd amcanestyniadau aelwydydd diwygiedig yr awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ar 4 Awst a chaiff rhagor o fanylion am gamgymeriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r rhagamcanion diwygiedig eu hamlinellu mewn [blog](#). Mae'r [adroddiad ansawdd digartrefedd](#) yn trafod gwybodaeth allweddol am ansawdd data ar ddigartrefedd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cyhoeddi gwybodaeth am [ansawdd a dulliau Cyfrifiad 2011](#).

Rhoddir rhagor o wybodaeth am ansawdd yn ymwneud ag amcangyfrifon o'r angen am dai isod.

Mae ystadegau tai Cymru yn glynu wrth [Strategaeth Rheoli Ansawdd Ystadegol](#) Llywodraeth Cymru, sy'n unol â chwe dimensiwn ansawdd System Ystadegol Ewrop, a restrir yn Egwyddor 4 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Rhoddir manylion y chwe dimensiwn, a sut rydym yn glynu wrthynt, isod:

Dimensiwn Ansawdd	Cadw at y Mesuriadau
Perthnasedd	Y graddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn diwallu anghenion defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys. Mae'r data yn yr Erthygl Ystadegol yn sail i amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru yn y dyfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Cânt eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Caiff yr amcangyfrifon eu defnyddio i lywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a byddant yn rhoi cyd-destun ar gyfer gwaith datblygu polisi yn y dyfodol, yn ogystal â llywio adroddiadau ar Dueddiadau yn y Dyfodol (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Rydym yn adolygu ein hallbwn ac yn croesawu adborth.
Cywirdeb	Yr agosrwydd rhwng canlyniad amcangyfrifon a'r gwerth gwirioneddol (anhysbys). Yn achos amcangyfrifon o'r angen am dai yn y dyfodol, mae'n anodd mesur pa mor agos fydd yr amcangyfrifon yn y dyfodol. Caiff pob elfen o'r amcangyfrifon (angen

	presennol nas diwallwyd ac angen newydd) ei hystyried yn ofalus iawn er mwyn ceisio sicrhau bod y tybiaethau mwyaf priodol yn cael eu gwneud. Mae elfen o ansicrwydd yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o'r angen am dai yn y dyfodol. I ddangos yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y ffigurau hyn, caiff ystod o amcangyfrifon eu cyflwyno yn yr erthygl ystadegol gysylltiedig. Mae'r amcanestyniadau aelwydydd (elfen allweddol o'r model anghenion tai) yn amcangyfrif nifer a maint yr aelwydydd yn y dyfodol, ac yn tybio y bydd tueddiadau blaenorol o ran genedigaethau, marwolaethau, a mudo (hynny yw, pobl yn symud i mewn ac allan o ardal) yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gaiff eu llunio fel hyn yn rhoi cyfrif am effeithiau polisïau llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol na dylanwadau allanol ar lefelau poblogaeth yn y dyfodol na chyfansoddiad aelwydydd, na newidiadau yn ffyrdd o fyw'r boblogaeth. Gall newidiadau yn yr economi, mewn ymddygiadau unigol, teuluol ac ar lefel aelwyd, a digwyddiadau y tu allan i'r DU ddylanwadu ar brif elfennau amcanestyniadau aelwydydd. Cydnabyddwn ei bod yn anodd mesur yr angen presennol am dai ychwanegol nas diwallwyd yn gyson (er enghraifft, nid yw gwybodaeth o restrau aros tai cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei chofnodi'n gyson ledled y wlad ac ni chaiff y wybodaeth ei choladu'n ganolog). Adolygodd y grŵp technegol ffynonellau data posibl a daeth i'r casgliad bod y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn gadarn ac yn addas at ddiben y gwaith hwn (er nad oeddent yn gyfredol o reidrwydd). Cydnabyddwn fod y data yn darparu darlun anghyflawn o angen presennol nas diwallwyd yng Nghymru a'u bod yn debygol o fod yn dangyfrif. Mae angen tybiaeth ynghylch sawl blwyddyn y byddai'n eu cymryd i glirio'r angen presennol nas diwallwyd am dai ychwanegol. Daeth y grŵp technegol i'r casgliad ei bod yn rhesymol tybio y dylai'r angen presennol nas diwallwyd gael ei glirio o fewn pum mlynedd. Mae hyn yn golygu tybio y caiff un rhan o bump o'r holl angen presennol nas diwallwyd ei chlirio bob blwyddyn am bum mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, gellid profi'r dybiaeth hon. Byddai'r ffigurau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ar y cam hwn.
Amseroldeb a phrydlondeb	Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi a'r cyfnod y mae'r data yn cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiadau cyhoeddi arfaethedig a gwirioneddol. Mae'r holl allbynnau yn glynu wrth y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau drwy nodi ymlaen llaw y dyddiad cyhoeddi drwy'r tudalennau cyn hir ar wefan Ystadegau ar gyfer Cymru. At hynny, os bydd angen gohirio allbwn byddai hyn yn dilyn trefniadau diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau Llywodraeth Cymru.

	Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfnod perthnasol o amser.
Hygyrchedd ac eglurder	Mae hygyrchedd yn golygu pa mor hawdd y gall defnyddwyr gael gafael ar y data, ac mae hefyd yn golygu fformat(au) y data a ph'un a oes gwybodaeth ategol ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metadata, darluniadau a chynghor cysylltiedig. Caiff amcangyfrifon o'r angen yng Nghymru yn y dyfodol eu cyhoeddi mewn ffordd hygyrch a threfnus, a nodir ymlaen llaw, ar wefan Llywodraeth Cymru am 9.30am ar y diwrnod cyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig o'r cyhoeddiad hwn ac mae trydriad o @YstadegauCymru yn hysbysu defnyddwyr Twitter am ei ryddhau. Caiff y datganiadau eu cyhoeddi ar GOV.UK hefyd ar yr un pryd. Anelwn at hysbysu defnyddwyr allweddol hysbys am gyhoeddi'r ystadegau pan gânt eu cyhoeddi. Anfonir e-bost at y Grŵp Gwybodaeth Tai. Mae pob datganiad ar gael i'w lawrlwytho am ddim. Mae data manylach hefyd ar gael ar yr un pryd ar wefan StatsCymru a gellir eu trin ar-lein neu eu lawrlwytho i daenlenni i'w defnyddio all-lein. Yn ein hallbynnau, anelwn at sicrhau cydbwysedd o ran sylwebaeth, tablau cryno, siartiau a mapiau lle bo'n berthnasol. Y nod yw 'adrodd yr hanes' yn yr allbwn, heb i'r bwletin na'r adroddiad fod yn rhy hir. Anelwn at ddefnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac mae pob allbwn yn dilyn polisi hygyrchedd Llywodraeth Cymru. Caiff yr erthygl ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Rydym yn cynnal adolygiad cymheiriaid o'n hallbynnau'n fewnol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystadegau drwy gysylltu â'r staff perthnasol a nodir ar y datganiad neu drwy ystadegau.tai@llyw.cymru.
Cymharedd	Y graddau y gellir cymharu data dros amser a pharth. Gall yr amcangyfrifon presennol gael eu cymharu'n gyffredinol â dau gyhoeddiad blaenorol dros amser yn ôl rhanbarth a deiliadaeth. Defnyddiwyd yr un fethodoleg i amcangyfrif yr anghenion tai ychwanegol ond gyda'r data sylfaen a'r rhagdybiaethau wedi'u diweddarau os oes modd.
Cydlyniaeth	Y graddau y mae data sy'n deillio o ffynonellau neu ddulliau gwahanol, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomenon, yn debyg Mae Adran 5 isod yn amlinellu'r angen o ran tai ar draws y DU.

5. Dull o amcangyfrif anghenion tai ychwanegol ar draws y DU

5.1 Lloegr

Mae'r [canllawiau cyfredol ar asesu'r angen am dai yn Lloegr](#) wedi'u diweddarau yn unol â'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.

5.2 Yr Alban

Yn yr Alban, ni chaiff amcangyfrifon swyddogol o'r angen a'r galw am dai eu cyhoeddi gan Lywodraeth yr Alban ar lefel genedlaethol na lleol. Fodd bynnag, amlinellir amcangyfrifon o nifer y tai ychwanegol yn y dyfodol, yn ôl deiliadaeth, er mwyn diwallu'r angen am dai a bodloni'r galw am dai nawr ac yn y dyfodol mewn Asesiadau o'r Angen a'r Galw am Dai. Cyflawnir hyn gan awdurdodau lleol yn yr Alban ac fe'u cefnogir yn ganolog gan Ganolfan Llywodraeth yr Alban ar gyfer Dadansoddi'r Farchnad Dai. Cafodd adnodd HNDA ar ffurf Excel ei greu gan Lywodraeth yr Alban er mwyn helpu awdurdodau lleol i lunio'r amcangyfrifon strategol, tymor hir hyn.

Fodd bynnag, mae'r adnodd HNDA hefyd yn nodi gwybodaeth am weithredu'r system dai er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu polisïau ar gyflenwi tai newydd, rheoli stoc bresennol a darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai a thai arbenigol. Diben yr HNDA yw darparu sail dystiolaeth gadarn a rennir ac y cytunir arni ar gyfer polisi tai a chynllunio defnydd tir a sicrhau bod Strategaethau Tai Lleol a Chynlluniau Datblygu yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o ofynion tai nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r CHMA yn arfarnu pob HNDA yn ffurfiol a lle mae'n fodlon bod yr HNDA yn gadarn ac yn gredadwy, bydd y dull a ddefnyddir fel arfer yn cael ei ystyried ymhellach mewn archwiliad o'r Cynllun Datblygu.

5.3 Gogledd Iwerddon

Rhydd Dangosyddion o Dwf Tai arwydd o'r angen am dai yn y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon. Mae amcanestyniadau aelwydydd a lunnir gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) yn ffurfio sail i'r amcangyfrif. Felly, mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar dueddiadau llunio poblogaeth/aelwydydd presennol gan dybio y bydd y tueddiadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Gan fod amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd, ac mai data'r stoc dai sy'n rhoi'r sefyllfa fwyaf cyfredol yn flynyddol, dylid defnyddio'r Dangosyddion o Dwf Tai fel canllawiau. Nid yw'r amcangyfrif yn ystyried unrhyw bolisïau fydd yn cael eu datblygu yn y dyfodol nac unrhyw ffactorau cymdeithasol, felly ni ddylid eu gweld fel targed nac fel cap ar ddatblygiadau tai yn yr ardal.

Cafodd Dangosyddion o Dwf Tai eu cyhoeddi'n flaenorol ym mis Mai 2016 ar gyfer y cyfnod 2012-2025. Roedd yr amcanestyniadau aelwydydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y dangosyddion hyn yn seiliedig ar ddata 2012. [Mae'r Dangosyddion o Dwf Tai diweddaraf](#) yn defnyddio [amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2016](#) ac wedi cael eu cyfrifo ar gyfer y cyfnod 2016-2030 i alinio gyda'r amserlen ar gyfer y rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r dangosyddion wedi'u cyfrifo ar gyfer Gogledd Iwerddon a hefyd ar gyfer pob un o'r 11 o Ranbarthau Llywodraeth Leol.

6. Adeiladu Tai Newydd

Mae'r datganiad ystadegol ar [adeiladu tai newydd](#) yn cwmpasu nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd, lle mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau a'r rhai a gwblhawyd. Mae data ar gael ar lefel awdurdod lleol, yn ôl y math o annedd (tŷ neu fflat) a nifer yr ystafelloedd gwely

7. Gwerthuso a Chyfeiriadau

7.1 Gwerthuso

Rydym bob amser yn croesawu adborth ar ein hystadegau. Cysylltwch â ni drwy e-bost:

ystadegau.tai@llyw.cymru

7.2 Dolenni Defnyddiol

Llywodraeth Cymru

- [Amcanestyniad tai awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2018](#)
- [Amcangyfrifon Stoc Annedd](#)
- [Ystadegau Digartrefedd](#)
- [Darpariaeth Tai Fforddiadwy](#)
- [Adeiladu Tai Newydd](#)
- [Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol \(yn seiliedig ar 2018\)](#)
- [Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru \(ar lefel genedlaethol a rhanbarthol\) fesul deiliadaeth \(yn seiliedig ar 2018\)](#)